




Y Ffordd Ymlaen 2018-2023:

Ail-Iunio COVID-19



Ein gweledigaeth

Diben Prifysgol Caerdydd yw creu a rhannu gwybodaeth, ac addysgu er budd pawb.

Ein gweledigaeth yw bod yn un o brifysgolion mwyaf blaenllaw'r byd, sy'n rhagorol o ran ymchwil ac yn neilltuol yn addysgol, ac yn cael ein gyrru gan greadigrwydd a chwilfrydedd. Rydym am fod yn brifysgol sy'n cyflawni ei rhwymedigaethau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd i Gaerdydd, Cymru, y Deyrnas Unedig a'r byd.

Drwy gyflawni ein gweledigaeth, rydym yn disgwyl gwella ein statws fel un o'r 100 o brifysgolion gorau yn y byd ac un o'r 20 gorau yn y Deyrnas Unedig.



Ein gwerthoedd

Byddwn yn gweithredu yn ôl Egwyddorion Bywyd Cyhoeddus Nolan ac ar ben hynny yn cael ein harwain gan y gwerthoedd canlynol:

Annibyniaeth sefydliadol

Rydym wedi ymrwymo i ymreolaeth atebol o fewn ac ar gyfer y sefydliad cyfan.

Rhyddid i ymchwilio

Rydym yn cynnal yr hawl i ymchwilio ar sail chwilfrydedd p'un a yw hynny'n arwain at ddefnydd ymarferol ai peidio. Drwy adolygu gan gymheiriaid yn yr ystyr ehangaf, disgwylir i'r ymchwil fod o'r safon uchaf.

Colegoldeb, arweinyddiaeth a rheolaeth

Rydym yn annog colegoldeb, sy'n hanfodol i fywyd prifysgol, ac yn hyrwyddo'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth sy'n angenrheidiol i ddefnyddio adnoddau prifysgol yn effeithiol ac yn gyfrifol. Byddwn yn ymdrechu i gynnal lles ein staff a'n myfyrwyr.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Rydym wedi ymrwymo i gyflog, triniaeth a chyfle cyfartal, cefnogi amrywiaeth a chreu cymuned sy'n agored ac yn gynhwysol.

Cynaliadwyedd amgylcheddol

Rydym yn hyrwyddo addysg gynaliadwyedd ac yn galluogi myfyrwyr a staff i wneud newidiadau cadarnhaol i'n heffaith amgylcheddol, yn enwedig ein targed o fod yn sero net carbon erbyn 2030.

Cydnorthedd ariannol

Rydym wedi ymrwymo i gynhyrchu'r arian dros ben sydd ei angen i fuddsoddi ar gyfer y dyfodol ac i allu ymdopi â digwyddiadau andwyol annisgwyl.

Cenhadaeth ddinesig

Byddwn yn cyflawni ein cenhadaeth ddinesig a'n cyfrifoldebau cymdeithasol ehangach, ac rydym yn ymroddedig i'r iaith Gymraeg.



Themâu strategol


Addysg a myfyrwyr

Bydd egwyddorion Y Ffordd Ymlaen (Addysg a Myfyrwyr) yn berthnasol o hyd. Fodd bynnag, byddwn yn pennu blaenoriaethau newydd er mwyn rhoi'r profiad o'r safon uchaf posibl i'n myfyrwyr o dan gyfyngiadau argyfwng COVID-19, gan gynnwys ein safonau a'n gonestrwydd academaidd.

Amgylchedd dysgu: Byddwn yn symud ymlaen gyda chynlluniau i wella ein darpariaeth ar-lein a chymysg er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn ddigon hyblyg i gyflwyno rhaglenni yn 2020/21 a thu hwnt. Fe ystyrir darpariaeth ar-lein newydd ar gyfer ffrydiau newydd posibl o refferiwn wedi'u hategu gan wasanaeth technoleg dysgu ar lefel Prifysgol. Bydd y gwaith hwn hefyd yn cynnwys y gefnogaeth berthnasol i fyfyrwyr o ran lles a chyflogadwyedd ar adeg o ddysgu helaeth o bell.

Profiad Myfyrwyr: Gwella profiad y myfyrwyr, cadw ein myfyrwyr a'u deilliannau llwyddiannus fydd blaenoriaethau'r Brifysgol o hyd. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys pwyslais parhaus ar:

- Ddawnsoddi adborth myfyrwyr am eu profiadau (gan gynnwys adolygiad o effeithiolrwydd gwerthuso modiwlau), ac ymgorffori Fframwaith Rheoli Arolygon y Brifysgol ymhellach a chamau dilynol.
- Asesu ac adborth, gan ganolbwyntio ar asesu a rhoi adborth ar-lein, ynghyd â gwaith parhaus i leihau'r baich asesu ar staff a myfyrwyr;
- Cau'r ddolen adborth, gan flaenoriaethu llunio adnoddau ar-lein at ddibenion hyrwyddo;
- Adolygu cynnydd ar brofiadau o Ddawnsoddeg Dysgwyr/y Flwyddyn Gyntaf er mwyn helpu i gadw myfyrwyr;
- Gwella ein darpariaeth a'r diwylliant cyfrwng Cymraeg yn unol â dyheadau ein Strategaeth Gymraeg newydd, *Yr Alwad/Embrace It*, fydd yn lansio cyn bo hir.



Llwyddiant myfyrwyr:

- **Lleoliad a Chyflogadwyedd:** Mae gwaith cefnogi gyrfaedd a sgiliau yn cael ei wneud o bell bellach a bydd yn gallu parhau i wneud hynny. Fodd bynnag, bydd pellter cymdeithasol parhaus yn ei gwneud hi'n anodd i'r Brifysgol ehangu'r gweithgareddau sydd eu hangen i gyflawni'r nod o ran lleoliadau gwaith. Ar hyn o bryd, mae'r tîm Gyrfaoedd yn canolbwyntio ar ystyried opsiynau am ddulliau cyflwyno amgen (e.e. defnyddio prosiectau/ lleoliadau rhithwir, ailstrwythuro er mwyn galluogi lleoliadau i ddechrau/gorffen yn hwyrach) a chynnig cefnogaeth yrfaol well er mwyn galluogi myfyrwyr i ymgysylltu'n effeithiol â chyflogwyr yn nhrwydd COVID-19.
- **Ehangu Cyfranogiad:** Bydd y Brifysgol yn parhau â'i gwaith cynllunio ac ymgynghori ynghylch ei Strategaeth Ehangu Cyfranogiad sydd newydd ei drafftio. Bydd gwaith ar hyn yn parhau (gyda lansiad yn Hydref 2020), gan gefnogi myfyrwyr o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol difreintiedig a myfyrwyr yr amharwyd ar eu haddysg i ymgysylltu, cyflawni a llwyddo ym Mhrifysgol Caerdydd.

Rhagoriaeth addysgu: Bydd gwaith ar gefnogi academyddion a'r rheiny sy'n cefnogi gwaith dysgu ac addysgu'n parhau, gyda chynnydd yn cael ei wneud ar y Fframwaith DPP Academaidd a chyflawni achrediad Advance HE, er gallai'r amserlenni gweithredu gael eu newid. Mae cyfres o seminarau allanol ar-lein yn cael ei hystyried.

Safonau academaidd: Y flaenoriaeth yn y maes hwn fydd cynnal safonau academaidd oherwydd yr amrywiad sylweddol a gyflwynwyd o ganlyniad i COVID-19. Bydd oediadau i gynlluniau ar gyfer adolygu rheoliadau academaidd ac adolygiadau cyfnodol i mewn i sesiwn 2020/21. Gofynnir i'r Brifysgol fynd ymlaen gyda chanlyniadau'r Adolygiad Gwella Ansawdd (QER) diweddar.

Er bod gwaith adeiladu ar Ganolfan Bywyd y Myfyrwyr wedi cael ei ohirio, bydd y gwaith adeiladu yn parhau i sicrhau lleoliad i gefnogi myfyrwyr ar gyfer sesiwn academaidd 2021.

Bydd y rhaglen i gefnogi Gwasanaethau Trawsffurfio Addysg yn cael ei haddasu i fod yn briodol i'r amgylchiadau newydd, gyda phwyslais penodol ar ddarpariaeth llyfrgelloedd ac addysg ddigidol.

Mae'n bosibl y bydd adolygiad o rai o'r nodweddion sy'n rhan o dablau cynghrair pynciau ac y bydd oedi cyn eu cyhoeddi. Yn yr un modd, cafwyd cyhoeddiad bod cynlluniau'r Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu ar gyfer y dyfodol wedi'u gohirio.

Cenhadaeth ddinesig

Yn yr un modd ag y gwnaeth Prifysgol Caerdydd ymateb i heriau cymdeithasol mawr yr 20fed Ganrif, mae'r argyfwng iechyd a chymdeithasol presennol a achosir gan y Coronafeirws yn gofyn i'r Brifysgol ail-lunio ein cenhadaeth ddinesig i helpu'r llywodraeth, y gwasanaethau iechyd a'r gymdeithas ehangach er mwyn adfywio ac adnewyddu tirwedd economaidd, gymdeithasol a diwylliannol Cymru.

Bydd ein cryfderau ymchwil yn cael eu defnyddio i wella cyfraniadau'r genhadaeth ddinesig at heriau cymdeithasol newydd y mae Cymru'n eu hwynebu, ochr yn ochr ag adfywiad ac adnewyddiad llwyddiannus. Bydd cefnogi'r gwaith o greu swyddi newydd yn hollbwysig o ystyried effaith economaidd y feirws.

Mae'n debyg y bydd arloesedd ym maes addysg yn fwy amlwg nag erioed yn ystod y cyfnod hwn, a gallwn barhau i gyfrannu at hyn.

Bydd ein partneriaeth â'r GIG yn llawer mwy arwyddocaol.

Byddwn yn parhau i weithio i wella diwylliant Cymreig ein campws yn unol â'n Strategaeth Gymraeg newydd.

Bydd ein perthnasoedd â sefydliadau allanol yn parhau'n hollbwysig ac yn ddefnyddiol iawn o bosibl wrth i ni fynd yn ein blaenau drwy'r pandemig.

Rhyngwladol

Byddwn yn rhoi'r cynlluniau lliniaru ar waith ac yn paratoi'n barhaus ar gyfer byd ôl-COVID-19 lle bydd modd teithio, rhyngweithio'n gymdeithasol heb gyfyngiadau a chynnal gweithgareddau rhyngwladol go iawn unwaith eto.

Bydd yn hanfodol dal ati i adeiladu perthnasoedd rhyngwladol er mwyn ein rhoi mewn sefyllfa dda yn y dyfodol. Er hyn, mae hyn yn faes fydd yn cael ei gyfaddawdu drwy gydol cyfnod yr argyfwng, a byddwn yn archwilio i ba raddau y gallwn ddysgu o'r heriau presennol o ran arferion dysgu ac addysgu, ynghylch teithio dramor a lleihau nifer y teithio rhyngwladol sy'n ymwneud â chynadleddau a theithiau maes.

Yn wleidyddol, ni fydd Brexit yn cael fawr o ystyriaeth nes ein bod yn tynnu at 1 Ionawr 2021. Er bydd ein hymrwymiad i ddyfnhau'r perthnasoedd â'n partneriaid Ewropeaidd yn parhau, mae'n debygol y caiff ein gweithgareddau eu heffeithio'n sylweddol.

Byddwn yn diwygio'r dangosydd perfformiad allweddol ar gyfer symudedd rhyngwladol i 20% o fyfyrwyr israddedig cartref sydd wedi cyflawni pythefnos o astudio, gweithio neu wirfoddoli dramor

erbyn 2023. Byddwch yn archwilio cyfleoedd newydd ar gyfer darpariaeth gymysg, yn ogystal â chyfleoedd am 'ryngwladoli gartref'.

Er y byddwn yn parhau i recriwtio'n rhyngwladol a chynnig amgylchedd cefnogol a chynhwysol i'n staff rhyngwladol, rydym yn cydnabod y gallai'r dangosydd perfformiad allweddol presennol o ran staff rhyngwladol fod yn heriol nes bydd yr amgylchiadau'n dychwelyd i rywbeth tebycach i'r sefyllfa fel yr oeddynt cyn-COVID.

Byddwn yn parhau i ganolbwytio ar gynnal ac adeiladu perthnasoedd cryf â phrifysgolion partner rhyngwladol drwy ddulliau 'o bell'.

Caiff rhaglen yr ysgol haf rhyngwladol ei haddasu yn ôl yr amgylchiadau cyfnewidiol, a bydd dulliau cyflwyno wedi'u haddasu lle bo angen.

Byddwn yn ailystyried sefydlu campws rhyngwladol yng ngoleuni'r amgylchedd cyfnewidiol ac yn datblygu dulliau arloesol ar gyfer addysg draws-wladol.

Byddwn yn parhau i gefnogi ein staff a datblygu cysylltiadau cydweithredol ar draws y byd sy'n sicrhau llwyddiant mewn tirwedd ariannu ymchwil rhyngwladol.

Ymchwil

Byddwn yn lliniaru effaith bresennol COVID-19 ar ymchwil drwy annog staff i weithio ar ddeilliannau ymchwil y gellir eu gwneud o bell.

Caiff cefnogaeth well i staff a myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig ei hystyried, gan ddibynnu ar wydnwch ariannol y Brifysgol.

Pan fydd modd cynnig mynediad at labordai a chyfleusterau, byddwn yn gweithredu proses raddol o ddychwelyd i waith ymchwil, gan sicrhau amgylchedd gwaith diogel i staff a myfyrwyr ymchwil. Rydym yn disgwyl gallu dilyn rhai o'n grantiau ymchwil presennol, ond mae gwaith ymchwil arall yn debygol o gael ei rwystro nes bydd yr haint dan reolaeth, yn enwedig os oes pobl yn cymryd rhan ynddynt neu os oes gweithgareddau rhyngwladol.

Byddwn yn lleihau effeithiau ariannol posibl COVID-19 ar ein hymchwil drwy weithio'n agos gyda chyllidwyr, partneriaid allanol a llywodraethau i sicrhau deilliannau ymchwil y gellir eu cyflawni, yn ogystal ag ystyried ymrwymadau o ran ariannu ymchwil mewn modd cyfatebol.

Byddwn yn ailystyried ein strategaeth ymchwil yng ngoleuni heriau hirdymor i gynaliadwyedd ariannol ymchwil a graddfa a chyfeiriad tebygol cyllid ymchwil yn y dyfodol ar ôl cyfnod COVID-19.

Byddwn yn adolygu'r dyhead i gael £200 miliwn o grantiau a chontractau er mwyn pennu a fydd modd cyflawni hyn o hyd.

Byddwn yn parhau â'n hadolygiad o endidau ymchwil y Brifysgol, gan lywio ein strategaeth ymchwil ar ôl COVID-19.

Byddwn yn ailystyried y dangosydd perfformiad allweddol ynghylch pŵer ymchwil ar gyfer REF, gan ystyried sut mae argyfwng COVID-19 yn debygol o effeithio ar gostau sylfaenol sector y DU.

Arloesedd

Byddwn yn cwblhau ein prosiectau adeiladu sy'n gysylltiedig ag ymchwil, ynghyd â Champws Arloesedd Caerdydd i'n rhoi ein hunain mewn sefyllfa effeithiol yn unol â chyfleoedd adnewyddu ac adfywio ôl-COVID.

Bydd hyn yn cynnwys ail-lunio achosion busnes ar gyfer ein prosiectau arloesedd mawr i wneud yn siŵr bod y rhain yn cyd-fynd â chyfleoedd ariannu newydd ac mewn sefyllfa strategol briodol.

Byddwn yn mireinio ffocws y strategaeth Arloesedd i roi'r Brifysgol mewn sefyllfa gref i gyfrannu at achub, adfywio ac adnewyddu capasiti Cymru a'r DU o ran ymchwil ac arloesedd ar ôl cyfnod COVID-19.

Byddwn yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol, Rhanbarth Prifddinas Caerdydd, y trydydd sector a Llywodraeth Cymru i ddatblygu mentrau strategol mawr sy'n gallu cyflwyno manteision economaidd mawr i'r rhanbarth. Bydd hyn yn cynnwys datblygu cysylltiadau cydweithredol newydd â'r sectorau preifat a chyhoeddus ar gyfer byd ôl-COVID, yn unol â blaenoriaethau'r DU o ran ymchwil a datblygiad.

Byddwn yn ailystyried Arloesedd i Bawb.

Byddwn yn datblygu ein partneriaethau strategol allweddol ymhellach, gyda'r nod o wella ein cyfraniadau o ran addysgu, ymchwil a'n cenhadaeth ddinesig at Gymru a'r DU.

O dan yr amgylchiadau hyn, mae'n rhaid mai goroesi a ffynnu dros y tair blynedd nesaf fydd ein huchelgais, fel yr amlinellir yn y ddogfen hon.



Asesu ein cynnydd

Ar lefel strategol, byddwn yn monitro nifer bach o ffactorau llwyddiant critigol yn hytrach na'r dangosyddion perfformiad lefel uchaf, yr ydym wedi barnu ein cynnydd yn eu herbyn yn flaenorol. Er y byddwn yn monitro'r dangosyddion perfformiad allweddol lefel uchaf presennol yn rhan o'r is-strategaethau ar gyfer y pum thema, rhaid i ni ganolbwyntio'n strategol ar y canlynol:

Iechyd a lles ein staff a'n myfyrwyr

Ffocws ar corona: bydd bob penderfyniad yn blaenoriaethu iechyd a lles staff a myfyrwyr, gyda'r nod o gadw'r risg o haint ar lefel dderbyniol. Bydd cyfathrebu ac ymgysylltiad rheolaidd â staff a myfyrwyr yn parhau i lywio'n gweithgareddau, a byddwn yn ymgynghori mor eang â phosibl, gan gynnwys cyfarfodydd rheolaidd gydag undebau'r campws.

Cynladwyedd ariannol, yn enwedig refeniw ffioedd, costau sylfaenol a'r sefyllfa ariannol

Ffocws ar corona: byddwn yn anelu at ddychwelyd i lif arian gweithredol lle rydym yn adennill costau ac yn cwblhau prosiectau buddsoddiad cyfalaf, gan flaenoriaethau ymrwymadau cytundebol. Byddwn yn monitro ein sefydliad staff yn unol â'n hincwm er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ariannol.



Bodlonrwydd y myfyrwyr a'u profiad

Ffocws ar corona: wrth i ni wneud penderfyniadau yn wyneb amgylchiadau annisgwyl sy'n newid yn sydyn, byddwn yn datblygu system ymateb-cyflym i roi gwybod i fyfyrwyr am newidiadau arfaethedig. Byddwn yn gweithio'n agos gydag Undeb y Myfyrwyr i roi profiad mor gyfoethog â phosibl i'n myfyrwyr dan amodau Covid-diogel. Byddwn yn cynnal arolygon rheolaidd i fonitro profiadau myfyrwyr, delio ag ymholiadau ac awgrymiadau dilynol ar bob agwedd ar fywyd myfyrwyr.


Grantiau a chytundebau ymchwil

Ffocws ar corona: Er bod cyflawni'r dyhead presennol o ran cael gwerth £200m o grantiau a chytundebau ymchwil yn ddymunol o hyd, byddwn yn canolbwyntio ar sicrhau bod ymchwilwyr yn cael eu cefnogi wrth eu gwaith ac yn cael yr amgylchedd gorau posibl drwy gydol cyfnod yr argyfwng.

Y genhadaeth ddinesig a'n cyfraniad at waith achub, adfywio ac adnewyddu

Ffocws ar corona: byddwn yn defnyddio ein harbenigedd academaidd, addysgol, clinigol ac ymchwil er mwyn helpu llywodraethau a chymdeithas ehangach i roi Cymru a'r DU mewn sefyllfa i wrthsefyll Covid mewn ffordd fydd yn achosi cyn lleied â phosibl o niwed, ac yn adeiladu'r sylfaen economaidd, gymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol orau ar gyfer byd ôl-Covid, yn unol â hanfodion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).





Cysylltwch â ni:

Prifysgol Caerdydd
Caerdydd, Cymru CF10 3XQ
Y DU
Ffôn: + 44 (0)29 2087 4000

 facebook.com/prifysgolCdydd

 [@prifysgolCdydd](https://twitter.com/prifysgolCdydd)

 youtube.com/cardiffuni

Mae Y Ffordd Ymlaen ar gael yn Saesneg neu mewn fformat print bras, cysylltwch â:
communications@caerdydd.ac.uk

Mae Prifysgol Caerdydd yn elusen gofrestrdedig, rhif 1136855

